# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Mawrth, 7 Mai 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
E. Dole, C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens and J. Tremlett

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
I. Jones, Pennaeth Hamdden
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 - 10.35 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 1AF EBRILL 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2019 yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033 FERSIWN DDRAFFT O'R STRATEGAETH CYN-ADNEUO A FFEFRIR**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 a luniwyd mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 10 Ionawr, 2018 i ddechrau ar y gwaith o baratoi cynllun diwygiedig a oedd yn cynrychioli carreg filltir bwysig i'r Cyngor o ran cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i baratoi cynllun cyfredol ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal sy'n dod o fewn awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys 344 o sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 12 Rhagfyr, 2018 a'r 8 Chwefror, 2018. Roedd y sylwadau hynny, ynghyd ag ymatebion ac argymhellion y swyddogion a chefndir y strategaeth a ffefrir, wedi'u cynnwys yn yr atodiadau canlynol i'r adroddiad:-

- Atodiad 1 – Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir – Cefndir;
- Atodiad 2 – Strategaeth a Ffefrir – Crynodeb o'r Sylwadau a'r Ymatebion - Argymhellion;
- Atodiad 3 – Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol – sylwadau a ddaeth i law;
- Atodiad 4 – Adroddiad Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – sylwadau a ddaeth i law;
- Atodiad 5 – Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol – sylwadau a ddaeth i law

Tynnwyd sylw'r Bwrdd Gweithredol at sylwadau Llywodraeth Cymru lle cyfeiriwyd at y ffaith bod yn rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y Cynllun yn rhoi sylw i'r Llawlyfr Drafft (Argraffiad 3) Pennod 5: Paratoi CDLl (Materion Craidd) a oedd yn manylu ar y materion allweddol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Er nad oedd y Llawlyfr Drafft wedi dod i law eto, rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd y byddai'r elfennau perthnasol yn cael sylw yn y Cynllun. Nodwyd hefyd y bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yr wythnos honno, ac y byddai unrhyw argymhellion/canfyddiadau yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Cyngor ar 15 Mai.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR :-**

**6.1 bod y sylwadau a ddaeth i law o ran y Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir yn cael eu nodi a bod yr argymhellion yn cael eu cadarnhau**

**6.2 bod y sylwadau ddaeth i law o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu nodi a'r argymhellion yn cael eu cadarnhau**

**6.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion gyflawni'r canlynol:-**

- **newid y Strategaeth a Ffefrir yng ngoleuni'r argymhellion sy'n deillio o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Fersiwn Adneuol o'r Cynllun Datblygu Lleol;**
- **gwneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol**

**ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Cytundeb Cyflawni.**

## 7. CAIS I'R GRONFA DDATBLYGU

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi cais a gyflwynwyd gan yr Adran Cymunedau i Gronfa Ddatblygu'r Cyngor i gael cymorth ariannol i ddarparu Cwrs Golff Bach ar ffurf thema ym Mharc Gwledig Pen-bre, sy'n gyfanswm o £150k, i'w ad-dalu dros gyfnod o bedair blynedd.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar y Gronfa Ddatblygu a nododd fod swm o £164k ar gael ar unwaith i'w ddyrannu ar gyfer cynlluniau newydd, a gofynnwyd hefyd i'r Bwrdd ystyried gohirio'r ad-daliad tan 2021/22 o'r trosglwyddiad blaenorol o £500K i'r Gronfa Ddatblygu o'r Gronfa wrth Gefn a glustnodwyd ar gyfer Yswiriant yn 2016/17, er mwyn sicrhau bod arian ychwanegol ar gael ar gyfer ceisiadau diweddar.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 Cymeradwyo swm o £150k ar gyfer Cwrs Golff Bach newydd ar ffurf thema ym Mharc Gwledig Pen-bre er mwyn cynhyrchu rhagor o incwm;**
**7.2 Bod yr ad-daliad ar gyfer y cynllun yn para dros gyfnod o bedair blynedd;**
**7.3 Bod yr ad-daliadau i'r Gronfa wrth Gefn a glustnodwyd ar gyfer Yswiriant o'r Gronfa Ddatblygu yn cael eu gohirio hyd 2021/22.**

## 8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o ran materion brys.

## 9. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 10. CONTRACTAU TAITH PRYDAIN

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 9 uchod, y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ariannol fanwl yn ymwneud â chontractau Taith Prydain. Er y byddai'r cyhoedd o blaid tryloywder a bod yn agored, roedd hyn yn cael ei wrthbwyso gan brawf budd y cyhoedd o ran cynnal**

**cyfrinachedd oherwydd yr angen i ddiogelu elfennau ariannol y Cyngor pe bai'n gwneud cais am unrhyw ddigwyddiadau pellach o'r fath.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar gontractau arfaethedig i'r awdurdod gynnal cymalau Taith Prydain yn y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr argymhellion yn yr adroddiad i'r awdurdod ymrwymo i gontractau i gynnal cymalau Taith Prydain yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu cymeradwyo.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**